ColegLlandrilloCymru ColegMeirion-Dwyfor

# GRANT CEFNOGI'R DYSGWR / LEARNER SUPPORT GRANT(FCF)
## *Cludiant / Transport* 2011 - 2012

***Darllenwch y canllawiau yma cyn llenwi'r ffurflen***
***Please read these guidance notes before filling in the form***

*Rhaid i bob myfyriwr sydd angen cymorth gyda chostau cludiant ar sail meddygol, symudedd neu anawsterau dysgu gwblhau'r ffurflen gais Cludiant, Grant Cefnogi'r Dysgwr*

**All students who require assistance with transport costs due to medical, mobility or learning difficulties must complete a Learner Support Grant, Transport application form**

### CANLLAWIAU ASESU

**Gellir rhoi ystyriaeth i'r ceisiadau canlynol am gymorth gyda chostau cludiant:**

- Bod Datganiad AAA cyfredol neu dystiolaeth meddygol yn cefnogi'r angen am drafnidiaeth oherwydd rhesymau meddygol, symudedd neu anawsterau dysgu
- Bod incwm y cartref yn £32,400 neu'n llai
- Bod yr Ymgeisydd heb astudio unrhyw gwrs arall ar yr un lefel
- Bod yr Ymgeisydd yn dangos cynnydd yn lefel ei astudio, h.y. o lefel 1 i lefel 2
- Bod yr Ymgeisydd ddim yn ailadrodd blwyddyn
- Bod yr Ymgeisydd yn symud ymlaen i wneud yr ail flwyddyn o raglen dwy flynedd o hyd

**<u>Ni</u> fydd myfyrwyr yn y categorïau canlynol yn gymwys am gymorth ariannol at gostau cludiant i'r Coleg ac o'r Coleg:**

1. Myfyrwyr sy'n 19 oed neu hŷn ac yn derbyn graddfa uwch o Lwfans Byw i'r Anabl
2. Myfyrwyr sy'n 19 oed neu hŷn a gyda incwm cartref sy'n fwy na £32,400
3. Myfyrwyr Rhyngwladol
4. Myfyrwyr o'r UE sydd heb fyw yn y DU/Cymru yn ystod y tair blynedd diwethaf
5. Myfyrwyr Addysg Uwch
6. Myfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell.
7. Myfyrwyr sy'n astudio ar Raglenni Dysgu yn y Gweithle: Prentisiaeth Fodern Sylfaen/Prentisiaeth Fodern, Dysgu Seiliedig ar Waith i Oedolion (WBLA)/ Adeiladu Sgiliau/ Adeiladu Sgiliau +/Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)/Llwybr i Brentisiaeth / Y Fargen Newydd.
8. Myfyrwyr sy'n byw mewn unrhyw sir arall ar wahân i Gonwy, Sir Ddinbych a Gwynedd.

**Costau Cludiant**

1. Ni chodir cost ar unrhyw fyfyriwr gyda Thocyn Mantais Teithio dilys os ydynt yn defnyddio bysiau'r coleg
2. Ni chodir cost ar fyfyrwyr sy'n 19 oed neu hŷn gyda incwm cartref sy'n llai na £18,370
3. Gofynnir i fyfyrwyr sy'n 19 oed neu hŷn gyda incwm cartref sydd rhwng £18,371—£32,400, gyfrannu o leiaf £60 y tymor at gostau cludiant

### GUIDELINES FOR ASSESSMENT

**Applications for assistance with travel costs may be considered where:**

- The need for transport is for medical, mobility or learning difficulties and is supported by a current SEN Statement or medical evidence
- Household income is at £32,400 or less
- The Applicant has not previously studied any other course at the same level
- The Applicant is showing progression in level of study e.g. level 1 to level 2
- The Applicant is not repeating a year of study
- The Applicant is continuing onto the 2nd year of a two year programme

**The following categories of students are <u>NOT</u> eligible to receive financial support towards transport costs to and from College:**

1. Students aged 19+ and in receipt of higher rate DLA
2. Students aged 19+ with a household income of more than £32,400
3. International Students
4. EU students that have not lived in the UK /Wales for the last three years
5. Higher Education Students
6. Students on distance learning courses
7. Students studying on Work Based Learning Programmes: Foundation Modern Apprenticeship / Modern Apprenticeship / Work Based Learning for Adults / Skill-Build / Skill-Build Plus / Construction Industry Training Board (CITB) / Pathway to Apprenticeship/ New Deal
8. Students who live in any other counties other than Conwy, Denbighshire and Gwynedd.

**Transport Charges**

1. No charge will be made to students with a valid Concessionary Travel Pass if they use college buses
2. No charge will be made to students aged 19+ with a household income of less than £18,370
3. Students aged 19 + with a household income between £18,371—£32,400 will be asked to contribute a minimum of £60 per term towards transport costs

| Cymraeg | English |
| --- | --- |
| **Asesir ceisiadau ar sail lefel incwm pob aelod o'r cartref. Wrth gyfrifo'r hawl, bydd y ffynonellau incwm canlynol yn cael eu hystyried**:<br><br>• Cyflogau a Thaliadau<br>• Incwm Hunangyflogaeth<br>• Credyd Treth Gwaith a Phlant<br>• Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol trethadwy<br>• Cymhorthdal Incwm<br>• Incwm Pensiwn<br>• Incwm heb ei ennill e.e. incwm o eiddo, buddsoddiadau, difidendau neu logau o gynilion neu gyfalaf.<br>• Taliadau Cynhaliaeth / CSA<br>• Lwfans Byw i'r Anabl<br>• Lwfans Symudedd | **Applications are assessed against combined household income levels . When calculating entitlement, the following sources of income will be taken into account:**<br><br>• Salaries and Wages<br>• Self-Employment Income<br>• Working and Child Tax Credit<br>• Taxable Social Security Benefits<br>• Income Support<br>• Pension Income<br>• Unearned income e.g. income from property; investments, dividends , interest from savings/capital.<br>• CSA or Maintenance payments<br>• Disability Living Allowance<br>• Mobility Allowance |
| **COFIWCH DDARLEN Y CANLLAWIAU ISOD YN OFALUS CYN LLENWI ADRAN 4—MANYLION INCWM CARTREF**<br>Er mwyn cwblhau'r adran ganlynol yn gywir, mae'n hollbwysig eich bod yn darllen ac yn deall y canllawiau canlynol. Os nad ydych chi'n siŵr beth i'w wneud, holwch y Ganolfan Cyngor ac Arweiniad cyn dechrau'r adran hon.<br><br>Isod ceir pwyntiau bwled sy'n esbonio os byddwch chi'n cael eich ystyried fel ymgeisydd annibynnol neu ddibynnol.<br><br>Dylai myfyrwyr annibynnol ddatgan incwm eu hunain ac incwm eu priod, partner sifil neu bartner, os yw hynny'n berthnasol.<br><br>**Rydych chi'n ANNIBYNNOL os yn bodloni un o'r canlynol:**<br><br>• Rydych chi'n 21 oed neu hŷn<br>• Mae gennych chi deulu eich hun, e.e. priod, partner sifil, partner neu blant<br>• Rydych chi'n byw ar ben eich hun ac yn cefnogi eich hun yn gyfan gwbl<br>• Mae eich rhieni wedi marw<br><br>Dylai myfyrwyr dibynnol ddatgan incwm eu rhieni, llys-rieni, rhieni eu partneriaid neu warcheidwaid cyfreithiol (nodwch yr incwm o dan Oedolyn 1 ac Oedolyn 2 yn yr adran incwm). Ar y dudalen nesaf ceir manylion y ffynonellau incwm y dylech chi eu datgan a'r mathau o dystiolaeth y dylech ei ddangos.<br><br>**Rydych chi'n DDIBYNNOL os:**<br>• Ydych chi dan 21 oed ac yn byw gyda rhiant neu lys-riant neu warcheidwad cyfreithiol.<br><br>Efallai bydd y Panel Asesu yn gofyn i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth uchod.<br><br>Darparwch **lungopïau** o'r dystiolaeth gefnogol. Gellir gwneud copïau yn y Ganolfan Cyngor ac Arweiniad os oes angen.<br><br>Rhaid gadael i'r Coleg wybod os bydd eich incwm cartref yn cynyddu ac yn fwy na'r uchafswm a ganiateir, sef £32,40O.<br><br>Mae'r wybodaeth sydd ei angen i gefnogi'r cais hwn yn seiliedig ar eich incwm cartref ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011. Os yw eich amgylchiadau ariannol wedi newid yna darparwch eich gwybodaeth incwm bresennol. | **PLEASE READ THE FOLLOWING GUIDELINES CAREFULLY BEFORE YOU BEGIN SECTION 4—HOUSEHOLD INCOME.**<br>In order to complete the following section accurately, it is vitally important that you read and understand the following guidelines. If you are in any doubt about what to do, seek advice from Student Services before you begin this section.<br><br>Below are bullet points which detail if you will be considered as an independent or a dependent candidate:<br><br>Independent students should declare their own income and that of their spouse, civil partner or partner, if they have one.<br><br>**You are INDEPENDENT if you meet one of the following criteria:**<br><br>• You are 21 or older<br>• You have a family of your own, e.g. spouse, civil partner, partner or children<br>• You live on your own and are fully self supporting<br>• You have no living parents<br><br>Dependent students should declare the income of their parents, step-parents, parents partner or legal guardians (enter income under Adult 1 and Adult 2 in the income section). The next page details what sources of income you should declare and what types of evidence you should supply.<br><br>**You are DEPENDENT:**<br>• If you are under 21 years old and live with a parent or step-parent or legal guardian<br><br>The assessment panel may ask you to supply evidence to support any of the above.<br><br>Please supply **photocopies** of the supporting documentary evidence. Copies can be made in the Advice & Guidance Centre if necessary.<br><br>You must notify the College if your household income rises above the eligibility threshold of £32,400.<br><br>The information needed to support this application is based on your household income for the year ending 5th April 2011. If your financial circumstances have changed please provide current information. |

## *Incwm y Cartref* / Household Income

| | ***Tystiolaeth sydd ei angen*** **Evidence Required** |
|---|---|
| **Cyflogau a Thaliadau / Salaries and Wages**<br>Dyma gyfanswm y cyflog sy'n drethadwy. Dyma'r swm a delir cyn y caiff Treth Incwm neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol eu tynnu allan. Mae'n cynnwys pob incwm o gyflogaeth, gan gynnwys: Tâl Salwch Statudol, Taliadau sy'n Berthnasol i Berfformiad, Taliadau mewn Da, Cyflog Mamolaeth, Cyflog Tadolaeth, Cildyrnau a Rhoddion a Thaliadau Goramser.<br>This is the total taxable pay. It is the amount paid before any deductions are made for Income Tax or National Insurance contributions. It Includes all income from employment covering: Statutory Sick Pay, Performance Related Pay, Payments in Kind, Maternity Pay, Paternity Pay, Tips & Gratuities and Overtime Payments. | **P60** ar gyfer blwyddyn dreth yn diweddu / **P60** for Tax Year ended 05/04/11<br>**P45** os wedi bod mewn mwy nag un cyflogaeth **/ P45** if more than one employment in the last tax year<br>**P11D/ P9D** os cawsoch daliadau 'mewn da' /<br>**P11D/P9D** if you received payments in kind. |
| **Lwfans Byw i'r Anabl / Disability Living Allowance**<br>Dyma fudd-dal di-dreth i blant ac oedolion sydd angen cymorth gyda gofal personol neu sydd ag anawsterau cerdded am fod ganddynt anabledd corfforol neu feddyliol.<br>This is a tax free benefit for children and adults who need help with personal care or have walking difficulties because they are physically or mentally disabled. | ***Hysbysiad Dyfarnu***<br><br>**Award notice** |
| **Lwfans Symudedd / Mobility Allowance**<br>Dyma'r gydran symudedd o'r Lwfans Byw i'r Anabl sydd ar gael os oes gennych anawsterau cerdded. Mae dau gyfradd, y gyfradd is a'r gyfradd uwch.<br>This is the mobility component of Disability Living allowance which you may receive if you have walking difficulties. There are two rates, the lower rate and the higher rate. | ***Hysbysiad Dyfarnu***<br><br>**Award notice** |
| **Incwm Hunangyflogaeth / Self-Employment Income**<br>Dyma'r incwm a'r elw a wneir trwy fod yn hunangyflogedig. Mae'n cynnwys: Incwm rhentu busnes ac unrhyw incwm arall a ddaw yn sgil perchen yr eiddo. Nid yw'n cynnwys: Cyfraniadau crynswth a wneir at gynllun pensiwn personol nac unrhyw golledion masnachu a ddygwyd ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol.<br>This is the income and profits from self-employment. It includes: Business rental income and any other income from the ownership of property. It does not include: Gross contributions made to a personal pension scheme or any trading losses brought forward from previous years. | **SA302** diweddaraf neu **lythyr gan Gyfrifydd**<br><br>Most recent **SA302**.<br>In the absence of a SA302 an **accountant's letter** |
| **Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol Trethadwy / Taxable Social Security Benefits**<br>Taliadau Nawdd Cymdeithasol Trethadwy a wneir i unigolion o dan system nawdd cymdeithasol y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Swyddfa Bensiynau. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>Lwfans Mam Weddw; Lwfans Rhiant Gweddw; Lwfans Gofal Analluedd; Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol; Budd-dal Analluogrwydd; Pensiwn a Lwfans Profedigaeth Gweddw neu Gyfraniadau at Lwfans Ceiswyr Gwaith.<br>Taxable Social Security payments made to individuals under the social security system run by Jobcentre Plus or the Pensions Office. They include:<br>Widowed Mothers Allowance; Widowed Parents Allowance; Invalid Care Allowance; Industrial Death Benefit; Incapacity Benefit; Widow's Pension and Bereavement Allowance or Contributions for Job Seekers | ***Cyfriflen neu gofnod o fudd-daliadau trethadwy a dalwyd gan y Gwasanaethau Nawdd Cymdeithasol NEU***<br>***Gyfriflenni banc ar gyfer y 3 mis diwethaf yn dangos enw'r myfyriwr***<br>**A Statement or record of paid taxable benefits from Social Security Services OR 3 Months recent bank statements showing students name.** |
| **Cymhorthdal Incwm / Income Support**<br>Dyma fudd-dal di-dreth ar sail incwm a geir os ydych ar incwm isel.<br>This is a non-taxable income-related benefit you receive if you are on a low income. | ***Cyfriflen Budd-daliadau Cymhorthdal Incwm presennol.***<br>**A current Income Support Benefits statement** |
| ***Incwm Pensiwn*** **/ Pension Income**<br>*Rydych chi'n derbyn yr incwm hwn os ydych chi wedi cyrraedd oed pensiwn. Mae'n cynnwys: Incwm Pensiwn Statudol; Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth; Cynlluniau Pensiwn Personol a Blwydd-daliadau Ymddeol.*<br>This is income you receive if you are of pensionable age. It includes: Statutory Pension Income; State Retirement Pension; Personal Pension Plans and Retirement Annuities | ***Cyfriflen Pensiwn Blynyddol neu P60 Pensiwn***<br><br>**Annual Pension Statement or Pension P60** |
| ***Incwm Arall*** **/ Other Income**<br>*Dyma incwm a ddaw o bethau fel eiddo, buddsoddiadau, difidendau neu log o gynilion neu gyfalaf.*<br>This is income that is generated from such things as property, investments, dividends or interest from savings or capital. | ***Cyfriflenni Banc diweddar gydag enw'r myfyriwr arnynt neu Lythyr Cyfrifydd.***<br>**Recent Bank Statements showing student's name or an accountants letter.** |
| ***Lwfans Cyflogaeth a Chymorth /*** **Employment and Support Allowance**<br>*Mae Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn cynnig cymorth personol ac ariannol fel eich bod yn gallu gwneud gwaith sy'n addas, os ydych chi'n gallu gwneud hynny.*<br>Employment Support Allowance offers you personalised support and financial help, so that you can do appropriate work, if you are able to. | **Llythyr Hysbysu neu Gyfriflenni Banc yn dangos Taliadau.**<br>**An Award Notice or Bank Statement showing Employment & Support Allowance payments.** |
| **Cynhaliaeth neu Daliadau CSA / Maintenance / CSA Payments**<br>Taliad ar gyfer eich plant / plentyn sy'n cael ei wneud gan eich cyn bartner.<br>These are payments made by your ex partner towards the care of your child. | **Cyfriflenni Banc diweddar yn dangos taliadau / cynhaliaeth**<br>**CSA Award Notice or Bank Statement** |